


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Creigiau Stack/San Gofan

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 500 1000 m

PELLTER/HYD: 3.1 milltir (4.9 km) 1 awr 30 munud • un ffordd

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Bosherton 387, Coastal Cruiser

CYMERIAD: Trac wedi'i ddiffinio'n dda, gweddol wastad

CHWILIWCH AM: Capel San Gofan • y frân goesgoch • clogwyni carreg galch trawiadol/golygfeydd godidog o'r arfordir


MWY O WYBODAETH: Llwybr ar gau pan fydd y maes tanio'n cael ei ddefnyddio.
Rhif Ffôn 01646 662280 i gadarnhau pan fydd y Llwybr ar agor

ALLWEDD

- ● ● ● ● Llwybr Llinol
- — — — — Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- - - - - Llwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileadau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y Llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu



Creigiau Stack/San Gofan

Short Walk

Hyd: 1 awr 30 munud, un ffordd

Pellter: 3.1 milltir (4.9 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Bosherton 387, Coastal Cruiser.

Cyfeirnod map: SM809132

Clogwyni dramatig o garreg galch a chyfoeth o fywyd gwyllt mewn ardal werdd heb ei difetha.

Chwiliwch am: Capel San Gofan, y frân goesgoch, clogwyni carreg galch trawiadol /golygfeydd godidog o'r arfordir.

Defnyddiwyd yr ardal hon ar arfordir De Penfro sydd yng nghysgod y clogwyni dramatig o garreg galch, gan y Weinyddiaeth Amddiffyn fel maes tanio ers y 1940, ac ychydig iawn o ddylanwad dynol a fu arni. Diolch i'r llonydd a gafodd yr ardal mae yma amrywiaeth gyfoethog o gynefinoedd sydd heb eu difetha ar gyfer bywyd gwyllt (mae'n debyg nad oes fawr o ots gan y bywyd gwyllt am y sŵn!).

Mae Stack Rocks (Elegug Stacks - mae elegug yn air Cymraeg arall am yr heligog) yn ddau biler o garreg galch ar wahân. Chwiliwch hefyd am y Bont Werdd, bwa naturiol a gerfiwyd gan y tonnau, a'r Crochan ar y penrhyn i'r dwyrain. Yn y Gwanwyn, mae copa'r Staciau a'r sarnau islaw yn fwrlwm o heligogod a gweilch y penwaig, ac mae gwylan y graig a'r wylan goesddu yn nythu ar y clogwyni ynghyd â'r penwaig a'r gwylanod cefnddu. Yn y Gaeaf, mae'r fronfraith, y frân a'r cornicyll ar y llwyfandir tua'r tir. Mae glaswelltir cyfoethog y llwyfandir yn gartref i amrywiaeth o ymlusgiaid, mamaliaid llai ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Mae pili-palaod prin fel y brith gwyrdd yn byw yma hefyd.

Gellir cyrraedd Capel San Gofan, cell garreg un ystafell o'r 13eg ganrif ar anterth y daith trwy 52 gris garreg garw (fe allant fod yn llithrig). Roedd y dŵr o Ffynnon San Gofan, islaw'r capel, yn enwog am ei bwerau iachaol, er mae'r ffynnon yn sych erbyn hyn.

Mae Libby Taylor, Uwch Barcmon y De gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cerdded y daith hon. Mae'n dweud: "Mae'r daith hon yn croesi ardal anghysbell sy'n agored i'r gwynt - mae yna olygfeydd gwych o'r arfordir ar hyd y darn hwn o arfordir, gyda staciau, bwâu, ogofau a chwythdyllau. Lle gwych i weld bywyd gwyllt yn agos yn ystod y Gwanwyn, gan gynnwys gweilch y penwaig, heligogod ac ambell frân goesgoch."

Cymeriad: Trac wedi'i ddiffinio'n dda, gweddol wastad.

Mwy o wybodaeth: Llwybr ar gau pan fydd y maes tanio'n cael ei ddefnyddio. Rhif Ffôn 01646 662280 i gadarnhau pan fydd y llwybr ar agor.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

